**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Tachwedd 2017

Annwyl Mr Ramsay,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Hydref lle'r oeddech yn mynegi pryderon ynghylch Llywodraeth Cymru yn derbyn rhai argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rhannol neu mewn egwyddor.

Rwy'n ddiolchgar am adborth y Pwyllgor. Yn bendant, nid wyf am i Lywodraeth Cymru ymddangos fel petai'n esgus derbyn argymhellion os nad yw wirioneddol yn eu cefnogi. Byddai'n llawer gwell gen i, yn yr un modd â'r Pwyllgor, ein bod yn dweud yn glir o'r cychwyn nad ydym yn derbyn argymhelliad penodol lle mae hynny'n wir, ac inni amlinellu'r sail resymegol yn glir ar gyfer y penderfyniad hwnnw. Er fy mod yn gobeithio na fydd hyn yn ddigwyddiad cyffredin, rwy'n croesawu safbwynt y Pwyllgor bod hyn yn rhan bwysig o'r broses graffu. Ni fyddwn, felly, yn derbyn rhai argymhellion yn rhannol neu mewn egwyddor rhagor.

Gobeithiaf y bydd y Pwyllgor yn cydnabod y gallai achosion godi lle byddwn yn cytuno â'r Pwyllgor ynghylch bwriad argymhelliad, ond y byddwn yn credu y gallai fod yno ffordd fwy effeithiol o gyflawni'r bwriad hwnnw. Eto, byddwn yn disgwyl i gydweithwyr amlinellu'r rhesymau dros ffafrio ffordd wahanol. Gobeithiaf y bydd y Pwyllgor yn cytuno bod hyn yn dal i gyfrif fel ein bod yn derbyn yr argymhelliad yn gyffredinol.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Byddem yn fodlon iawn cynnal trafodaethau anffurfiol â'r Pwyllgor, efallai drwy Swyddfa'r Clerc, ynghylch geiriad argymhellion drafft pe byddai hynny o gymorth. Wrth gwrs, ni fyddem yn bwriadu ceisio cymell y Pwyllgor i beidio â pharhau ag argymhelliad penodol. Byddem am ddarparu cyfle i drafod y ffordd orau o weithredu'r hyn sydd gan y Pwyllgor mewn golwg. Byddai hyn yn adlewyrchu arfer Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ymgynghori â ni ynghylch ei argymhellion arfaethedig fel rhan o'i broses adrodd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog a Chlerc Comisiwn y Cynulliad.

Yn gywir,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government